**Cofnodion o Eitemau 2 a 3 o agenda cyfarfod diweddaru gan Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 2pm drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Mercher 26 Hydref 2022**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies,<br>John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Prys Morgan,<br>Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Maria Richards, Llywodraeth Cymru |
| **Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).<br>Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)<br>Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau) |

1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Aelod Bwrdd Huw Davies ac ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn oddi wrth Jon Parker (Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi) a Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol).

**Rhan ffurfiol y cyfarfod**

2. **Pwyllgor Tâl – Cymeradwyo John T Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor a Cath Smith a Jack Evershed yn Aelodau o'r Pwyllgor**

Cytunodd y Bwrdd â'r enwebiadau y dylid penodi John T Davies (fel Aelod Sefydlog o'r Pwyllgor Tâl) i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor gyda Cath Smith (yn aros) a Jack Evershed (newydd) yn Aelodau o'r Pwyllgor.

3. **I dderbyn diweddariad llafar am Bwyllgorau Bwrdd HCC**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn amserol i Bwyllgorau Bwrdd HCC gael eu hadolygu'n ffurfiol o ran cylch gwaith ac aelodaeth dros y misoedd nesaf er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn adolygiad sefydliadol HCC. Byddai'r Pwyllgorau newydd / diwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2023.